

Cyfeiriad: IR729

Dyddiad cyhoeddi: 13 Ionawr 2020

## Rhwydwaith Ardal Leol (LAN)

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais isod am wybodaeth, dyddiedig 19 Rhagfyr 2019, pan wnaethoch ofyn am wybodaeth am y Rhwydwaith Ardal Leol (LAN).

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhychu eich cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol.

**Anfonwch wybodaeth ataf am gontract Rhwydwaith Ardal Leol (LAN) y sefydliad, a all gynnwys y canlynol:**

- Cymorth a Chynnal a Chadw- e.e. switshis, llwybrydd, meddalwedd ac ati
  - Wedi'i reoli - Os yw hyn yn cynnwys mwy o wasanaethau na LAN yn unig.
1. **Math o Gontract: Rheoli neu Gynnal a Chadw**
  2. **Cyflenwr Presennol: Pwy yw'r cyflenwr presennol?**
  3. **Gwariant Blynnyddol ar gyfer pob cyflenwr: Beth yw'r gwariant cyfartalog blynnyddol ar y cyflenwr uchod? Os oes mwy nag un cyflenwr, rhannwch y gwariant cyfartalog blynnyddol ar gyfer pob cyflenwr.**
  4. **Nifer y Defnyddwyr: A fydddech cystal â rhoi i mi nifer y defnyddwyr y mae'r contract hwn yn eu cynnwys. Bydd tua nifer y defnyddwyr hefyd yn dderbyniol.**
  5. **Nifer y Safleoedd: Nifer y safleoedd, lle mae cyfarpar yn cael ei gefnogi gan bob contract.**
  6. **Brand Caledwedd: Beth yw brand caledwedd yr offer LAN?**
  7. **Disgrifiad o'r Contract: Rhowch ddisgrifiad byr i mi o'r contract cyffredinol.**
  8. **Hyd y Contract: Beth yw hyd y contract ac a allwch hefyd gynnwys unrhyw estyniadau y gallai hyn eu cynnwys.**
  9. **Dyddiad Dod i Ben y Contract: Pryd mae'r contract yn dod i ben?**
  10. **Dyddiad Adolygu'r Contract: Pryd fydd y sefydliad yn bwriadu adolygu'r contract?**
  11. **Swyddog Cyfrifol: Manylion cyswllt gan gynnwys enw, teitl swydd, rhif cyswllt a chyfeiriad e-bost?**

Nid oes gennym wybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad hwn gan nad oes contract LAN

**Os yw'r gwaith cynnal a chadw LAN wedi'i gynnwys yn fewnol, dylech gynnwys y wybodaeth ganlynol:**

1. **Brand Caledwedd: Beth yw brand caledwedd yr offer LAN?**

Cisco

2. **Nifer y Defnyddwyr: A fydddech cystal â rhoi i mi nifer y defnyddwyr y mae'r contract hwn yn eu cynnwys. Bydd tua nifer y defnyddwyr hefyd yn dderbyniol.**

Nid oes contract. Er gwybodaeth, mae gan SAC tua 280 o staff.

**3. Nifer y Safleoedd: Amcangyfrif/Nifer wirioneddol y safleoedd y mae'r LAN yn eu cwmpasu.**

Mae gan SAC dri safle swyddfa.

**4. Swyddog Cyfrifol: Pwy o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am LAN. Rhowch fanylion cyswllt i mi gan gynnwys enw, teitl swydd, rhif cyswllt a chyfeiriad e-bost.**

Y tîm TG - [itsupport@audit.wales](mailto:itsupport@audit.wales)

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am fy ffordd o ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth